# Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol

## Crynodeb o'r Gwersi a Ddysgwyd

O fis Rhagfyr 2010 hyd fis Ionawr 2013, cynhaliodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol. Hwn oedd y chweched arolwg cyffredinol o Etholaethau Seneddol a'r arolwg mwyaf arwyddocaol yn hanes y Comisiwn. Roedd yr Arolwg yn dilyn y rheolau a bennwyd yn Neddf System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 (y Ddeddf) a olygai gostwng nifer yr etholaethau yng Nghymru o 40 i 30 a nifer fwy cyfartal o etholwyr ym mhob etholaeth (+/- 5% o Gwota Etholiadol y DU).

Dyma oedd y prif gerrig milltir yn ystod yr arolwg:

- Lansio'r Cynigion Cychwynnol – Ionawr 2012
- Pum Gwrandawiad Cyhoeddus - Chwefror/Mawrth 2012
- Ail Gyfnod Ymgynghori – Mehefin 2012
- Cyhoeddi'r Cynigion Diwygiedig – Hydref 2012

Ym mis Ionawr 2013 pasiodd y Senedd ddiwygiad i'r Bil Cofrestru Etholiadol a Gweinyddu Etholiadol a newidiodd y dyddiad adrodd ar gyfer yr arolwg cyntaf o dan y Ddeddf, a'i effaith felly fu canslo Arolwg 2013.

Ar ôl canslo'r arolwg, cynhaliodd y Comisiwn adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd er mwyn asesu pa brosesau rheoli a phrosesau eraill a aeth rhagddynt yn dda, neu pa rai y gellid eu gwella, er mwyn trosglwyddo unrhyw wersi y gellir eu cymhwyso'n ddefnyddiol i arolygon y dyfodol. Mae'r prif argymhellion o'r adolygiad hwn wedi'u crynhoi yn y papur hwn.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar weinyddu a chyflwyno, ac nid ar dasgau yr oedd pobl eraill yn gyfrifol amdanynt. Felly nid yw'r gofynion deddfwriaethol, h.y. yr amrediad statudol neu'r gostyngiad mewn etholaethau, yn rhan o'r adroddiad hwn. Yn hytrach, mae'r ffocws ar sut yr aeth y Comisiwn ati i gynnal yr arolwg, y wybodaeth a gyflwynodd a sut yr ymgysylltodd â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill.

Deilliwyd yr adroddiad o bedair prif ffynhonnell:

- Y Cofnod Gwersi a Ddysgwyd – y cofnod o wersi a ddysgwyd sydd wedi'i gadw yn ystod y rhan fwyaf o'r arolwg ac wedi'i ddiweddaru gan yr Ysgrifenyddiaeth.
- Cyfweliadau â Rhanddeiliaid – cyfweliadau gyda rhanddeiliaid allanol penodol er mwyn asesu sut y gall y Comisiwn wella'i ddull o ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Arolwg Mewnol – cyfweliadau gyda rhanddeiliaid mewnol i asesu materion fel sgiliau ac argaeledd staff, trefniadau ariannol, ymgysylltu â Chomisiynwyr.
- Ystadegau Allweddol a Data Ariannol.

## Crynodeb o'r Argymhellion

Barnau cadarnhaol yn bennaf a fynegwyd gan randdeiliaid mewnol ac allanol yn ystod yr adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd, a dylai'r Comisiwn a'i Ysgrifenyddiaeth ymfalchïo yn y modd y cynhaliodd Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol. Roedd yn broses a weithiodd yn dda o dan amgylchiadau gwleidyddol a gweinyddol anodd. Nododd yr adroddiad manwl nifer o bwyntiau dysgu a oedd yn bwyntiau llwyddo o arolwg 2013, a phwyntiau y bwriada'r Comisiwn eu parhau yn y dyfodol.

Gwnaeth yr adroddiad nifer o 'argymhellion' ar gyfer newid hefyd, ac fe'u hamlinellir isod. Meysydd yw'r rhain na chafodd sylw yn ystod Arolwg 2013 a gellid eu rhoi ar waith er mwyn gwella effeithiolrwydd y Comisiwn neu effeithlonrwydd y broses cynnal arolygon. Nid yw gwelliannau sydd wedi'u nodi yn adlewyrchiad o fethiannau, ond yn hytrach yn enghreifftiau o gyfleoedd i sicrhau gwelliant parhaus.

**ARGYMHELLIAD 1:** Cyn dechrau'r arolwg nesaf dylid cynnig cyfarfodydd gyda'r Comisiwn i grwpiau rhanddeiliaid allweddol er mwyn trafod y broses a'r modd y dylai'r Comisiwn fynd ati i ymgysylltu. Dylai fod un cyfarfod ar gyfer pleidiau gwleidyddol, un ar gyfer cynrychiolwyr llywodraeth leol (er enghraifft Un Llais Cymru, CLlLC, Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a Chymdeithas Cynghorau Tref a Chymuned Mwy o Faint Gogledd Cymru), ac un cyfarfod gyda'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru i drafod materion gweithredol. Gall y Comisiwn fod eisiau ystyried cyfarfodydd eraill fel y bo'n briodol.

**ARGYMHELLIAD 2:** Dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r math o wybodaeth y trefnir ei bod ar gael mewn mannau gweld ac mewn llyfrgelloedd. Yn hytrach na chopïau niferus o'r adroddiad argraffedig a mapiau mawr, gallai fod modd cynhyrchu crynodeb mwy lleol (h.y. poster A3) gyda'r cynnwys llawn ar gael ar-lein, er na ddylai gwybodaeth gryno atal unrhyw ystyriaeth o effaith ganlyniadol gwrthgynigion.

**ARGYMHELLIAD 3:** Dylid gwneud trefniadau ar gyfer gwiriad ansawdd allanol manwl o adroddiadau cyn eu cyhoeddi. Dylai'r gwiriad hwn gynnwys defnyddio'r adroddiad yn hytrach na'i brawfddarllen yn unig.

**ARGYMHELLIAD 4:** Ar gyfer arolygon y dyfodol, dylid ystyried y cyfleoedd canlynol ar gyfer gwella'r gwrandawiadau cyhoeddus:

- Gellid defnyddio mannau cyfarfod llai, yn enwedig yng Nghaerdydd ac Abertawe, er mwyn cynnig gwerth gwell am arian.
- Dylid rhoi ystyriaeth i hygyrchedd mannau cyfarfod, a dylid rhoi mapiau i fannau cyfarfod a gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus ar wefan y Comisiwn.
- Gellid cynnal gwrandawiadau un diwrnod gyda'r opsiwn i gynnal ail ddiwrnod, gan ddibynnu ar y galw
- Dylid cynnal cyngyfarfod mwy ffurfiol rhwng y Comisiwn a'r Comisiynwyr Cynorthwyol cyn y gwrandawiadau er mwyn trafod egwyddorion sylfaenol yr arolwg.

**ARGYMHELLIAD 5:** Ar gyfer unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol i'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli arolygon o ffiniau Seneddol, dylid rhoi ystyriaeth i nodi'n gliriach y confensiynau ar gyfer enwi etholaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan hwyluso ffordd syml a naturiol i gydnabod y ddwy iaith yn ddelfrydol.

**ARGYMHELLIAD 6:** Dylai'r Comisiwn barhau i adolygu fformat mapiau y mae'n eu cynhyrchu i'w cyhoeddi, a gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu mapiau sy'n cynorthwyo dehongli ac ymgysylltu.

**ARGYMHELLIAD 7:** Dylai'r Comisiwn ystyried cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth agosach â'r Arolwg Ordnans er mwyn parhau i wella'r modd y mae'n defnyddio mapio ac yn cyflwyno mapiau yn ei adroddiadau.

**ARGYMHELLIAD 8:** Dylai'r arolwg nesaf, os deuir o hyd i ddull cost effeithiol, ddarparu cymhwysiad ar y we sy'n galluogi defnyddwyr i fapio'u hetholaethau eu hunain a chyflwyno'r rhain i'r Comisiwn. Dylid rhoi ystyriaeth i ba un a ellid datblygu hyn mewn partneriaeth â'r Arolwg Ordnans a Chomisiynau Ffiniau eraill y DU.

**ARGYMHELLIAD 9:** Dylai'r Comisiwn ystyried ei ddefnydd o hysbysiadau cyhoeddus yn y dyfodol ac ystyried ymgysylltu ymhellach â'r cyfryngau lleol, targedu datganiadau i'w wasg a hysbysiadau cyhoeddus ar faterion lleol.

**ARGYMHELLIAD 10:** Dylai'r Comisiwn sicrhau gwneud defnydd pellach o'r cyfryngau cymdeithasu a chynnwys gwe dynamig i wella cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol. Dylai ddod yn rhan sylfaenol o'r Strategaeth Gyfathrebu ar gyfer yr arolwg nesaf, a dylid datblygu polisi ar y cyfryngau cymdeithasu.

**ARGYMHELLIAD 11:** Dylid cynnal Arolygon o Ffiniau yn unol ag arfer da mewn rheoli prosiectau, yn enwedig o ran cynllunio, rheoli risg, llywodraethu ac adrodd. Rhoddwyd prosesau Rheoli Perfformiad ar waith ar ôl i Arolwg 2013 gychwyn, ac yn y dyfodol dylai'r prosesau hyn fod yn eu lle o ddechrau'r arolwg.

**ARGYMHELLIAD 12:** Dylai aelodaeth Comisiwn Ffiniau i Gymru a'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gael ei hystyried ymhellach o ran pa un a ddylai aelodaeth aros ar wahân yn gyfan gwbl neu a oes unrhyw fudd i ganiatáu aelodaeth ar y cyd.

**ARGYMHELLIAD 13:** Dylid ystyried telerau swydd Comisiynwyr a Dirprwy Gadeirydd Comisiwn Ffiniau i Gymru er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod cysondeb mewn personél yn ystod proses arolwg.

**ARGYMHELLIAD 14:** Dylai'r trefniadau Ysgrifenyddiaeth ar y cyd barhau, ond rhaid rhoi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diweddar yn ei le yn diffinio perthynas sy'n dderbyniol i CFfLlLC, CFfG, Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru.

**ARGYMHELLIAD 15:** Dylai un 'Ysgrifennydd' gwmpasu gwaith CFfG a CFfLlLC ac arwain yr Ysgrifenyddiaeth ar y cyd. Dylid cynnwys cynrychiolydd CFfG a Swyddfa'r Cabinet, a Dirprwy Gadeirydd CFfG, yn y broses recriwtio ar gyfer y swydd hon. Dylai swydd yr Ysgrifennydd fod yn benodiad ar y cyd, a dylid esbonio manylion y trefniant hwn yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddiweddaru.

**ARGYMHELLIAD 16:** Dylid datblygu cynllun gweithredu mewn partneriaeth â CFfLlLC, ond ei fonitro gan CFfG, er mwyn sicrhau bod sgiliau cynnal arolygon, rheoli prosiectau a chyfathrebu yn cael eu datblygu ar draws yr Ysgrifenyddiaeth.

**ARGYMHELLIAD 17:** O flwyddyn ariannol 2013/14, dylai'r costau penodedig i gynnal y Comisiwn gael eu talu gan Swyddfa'r Cabinet i CFfLlLC er mwyn galluogi pob parti i gynllunio ymlaen, i'r ddau Gomisiwn gynnal sgiliau a gwybodaeth yn ystod cyfnodau tawelach, a sicrhau bod Ysgrifenyddiaeth effeithiol yn ei lle i gynnal arolygon Seneddol ac arolygon Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel y bo'r gofyn.

## Ble Nesaf?

Mae'r argymhellion uchod yn ffurfio cynllun gweithredu ar gyfer y Comisiwn a'i Ysgrifenyddiaeth ei gyflawni er mwyn sicrhau ei fod yn y lle gorau posibl i gynnal arolygon ffiniau effeithlon ac effeithiol yn y dyfodol, a sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol. Bydd y Comisiwn yn monitro cynnydd yn fanwl tuag at gyflawni'r argymhellion hyn.